MEETING OF THE LEARNING COMMUNITIES OVERVIEW & SCRUTINY COMMITTEE OF TORFAEN COUNTY BOROUGH COUNCIL
Held on Thursday, 21 June 2018 at 1.30pm-1.45pm
In the Council Chamber, Civic Centre, Hanbury Road, Pontypool, NP4 6YB

MINUTES

Attendance:

Members of the Committee
Councillor Gwyn Jenkins
Councillor Richard Overton
Councillor Jessica Powell (Chair)
Councillor Kelly Preston
Councillor Rose Seabourne

Statutory (Voting) Co-opted Members:
Ms Lorna Redman
Mr Bernard Williams

Non-Statutory Co-opted Members:
Dr John Sheridan

Officers:
Sharon Davies, Head of Learning (HoL)
Rebecca Fahey, Corporate Scrutiny Officer (CSO)
Tim James, Chief Legal Officer (CLO)
Dermot McChrystal, Chief Officer Education (COE)
Karen Padfield, Head of Skills & Employability (HoS&E)
Tom Roberts, Senior Corporate Improvement & Scrutiny Officer (SCI&SO)
Geraint Thomas, Senior Business Support Officer (SBSO)

Action

1 **Welcome & apologies**

1.1 Apologies were received from Councillors' Glyn Caron, Kathy Evans, Chris Tew, Colette Thomas and Raymond Williams.

2 **Declarations of interest**

2.1 The CLO reminded Members that if they felt that they had an interest to declare in any items, they should do so and record it on the Declarations of Interest pro forma provided.

2.2 The CLO left the meeting.

3 **Minutes 9.5.2018**

3.1 The minutes of the meeting held on 9th May 2018 were confirmed as an accurate record.

4 **Action sheet**

4.1 The CSO confirmed that email updates had been sent to the Committee regarding all of the actions listed within the action sheet.

4.2 In terms of the first action, regarding the Self Evaluation Report (SER), the COE explained that the action may alter in due course, as Estyn were no longer expecting a stand-alone document. Instead, Estyn wanted to see how the Local Education Authority (LEA) was keeping members up to speed in terms of LEA plans and how the LEA reviewed all of its work on a continuous basis.

4.3 The committee noted the action sheet.

5 **Update Report - Progress Against Adopted Action Plans**

5.1 The Chair and the CSO introduced the report, provided a brief background and confirmed the suggested scrutiny activity.

5.2 The relevant officers provided updates and answers to members' questions regarding the topics below.

5.3 Estyn Report – Improving Schools Through Regional Education Consortia
The COE confirmed that an update to the national model for regional school improvement services would be available soon; however he was not anticipating any significant changes in respect of the region.

5.4 The Committee agreed to retain this item for further updates.

5.5 WAO Report – Achieving Improvement in Support to Schools Through Regional Education Consortia – An Early View
The COE suggested that the Committee would want to consider the Education Achievement Service (EAS) Business Plan as a scrutiny item during the following year. He explained that the LEA and their partners, who were commissioning owners of the EAS, wanted to see significant progress in terms of embedding the self-improvement system in the region. He added that the EAS was in a really strong position to achieve this.

5.6 The Committee agreed to retain this item for further updates.

5.7 Estyn Inspection of October 2011 & 2013 Estyn Monitoring Visit
The COE assured the Committee that the LEA were constantly mindful of their previous position but were always looking to the future.

5.8 The Committee agreed to remove this item from future monitoring reports.

5.9 Cllr Seabourne suggested that it would be useful to receive feedback regarding the reconstituted Children & Young People's Improvement Board (CYPIB).

5.10 WAO Review – Young People Not in Education, Employment or Training (Local Feedback)

The COE confirmed that the CYPIB would be reconstituted and that a paper had been presented to the Chair of the Public Services Board (PSB) around how the CYPIB would fit into the PSB's Wellbeing Plan.

5.11 The COE confirmed that the Pupil Progress Group was also being reconstituted, which had previously co-ordinated successful work around Young People Not in Education, Employment or Training (NEET). Further updates regarding this significant piece of work would follow in due course.

5.12 The HoS&E confirmed that NEET numbers had dropped considerably and that procedures and processes were imbedded. The LEA measure, at Year 11, stood at a very low 1.1% and it would probably stay around that mark.

5.13 The Committee agreed to retain this item for further updates.

6 **Schools Standards Monitoring Sub Committee Membership**

6.1 The Corporate Scrutiny Officer (CSO) outlined the role of the Schools Standards Monitoring Sub-Committee and the proposed membership, seen within the report.

6.2 The CSO explained that membership of the sub-committee would be reviewed on an annual basis.

6.3 The committee agreed:

i. **The membership of the School's Standards Monitoring Sub-Committee for 2018-19, as per the report (in accordance with the relevant political balance calculations);**

ii. **The sub-committee should continue to focus specifically on individual schools performance and the support they receive.**

7 **Date of next meeting**

7.1 The Chair confirmed that the date of the next meeting would be circulated as soon as possible.

7.2 The meeting ended at 1.45pm.

CYFARFOD PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU'N DYSGU
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL TORFAEN
A gynhaliwyd ar ddydd Iau, 21 Mehefin 2018 am 1.30pm-1.45pm
Yn Siambr y Cyngor, Y Ganolfan Ddinesig, Heol Hanbury, Pont-y-pŵl, NP4 6YB

COFNODION

Yn Bresennol:

Aelodau of the Pwyllgor
Y Cynghorydd Gwyn Jenkins
Y Cynghorydd Richard Overton
Y Cynghorydd Jessica Powell (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Kelly Preston
Y Cynghorydd Rose Seabourne

Aelodau Cyfetholedig Statudol (yn pleidleisio):
Ms Lorna Redman
Mr Bernard Williams

Aelodau Cyfetholedig Anstatudol
Y Dr John Sheridan

Swyddogion:
Sharon Davies, Pennaeth Dysgu
Rebecca Fahey, Swyddog Craffu Corfforaethol
Tim James, Prif Swyddog Cyfreithiol
Dermot McChrystal, Prif Swyddog Addysg
Karen Padfield, Pennaeth Sgiliau a Chyflogadwyedd
Tom Roberts, Uwch Swyddog Gwelliant Corfforaethol a Chraffu
Geraint Thomas, Uwch Swyddog Cefnogi Busnes

		Cam
1.	**Croeso ac ymddiheuriadau**	
1.1	Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Glyn Caron, Kathy Evans, Chris Tew, Colette Thomas a Raymond Williams.	
2.	**Datganiadau o Fudd**	
2.1 2.2	Atgoffodd y Prif Swyddog Cyfreithiol Aelodau pe bai nhw'n teimlo fod ganddyn nhw fudd i'w ddatgan mewn unrhyw eitemau, dylen nhw wneud a chofnodi hynny ar y ffurflen Datganiadau o Fudd a ddarparwyd. Gadawodd y Prif Swyddog Cyfreithiol y cyfarfod.	
3.	**Cofnodion 9.5.2018**	
3.1	Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod ar 9fed Mai 2018 yn rhai cywir.	

		Cam
4.	**Taflen Waith**	
4.1	Cadarnhaodd y Swyddog Craffu Corfforaethol fod diweddariadau ar yr holl weithredoedd ar y daflen waith wedi eu danfon trwy e-bost at y Pwyllgor.	
4.2	O ran y cam cyntaf, ynglŷn â'r Adroddiad Hunanwerthuso, esboniodd y Prif Swyddog Addysg y gallai'r camau newid ymhen amser, gan nad oedd Estyn bellach yn disgwyl dogfen ar ei phen ei hun. Yn lle, roedd Estyn am weld sut roedd yr Awdurdod Addysg Lleol (AALl) yn hysbysu aelodau am gynlluniau'r AALl a sut roedd yr AALl yn adolygu ei holl waith yn rheolaidd.	
4.3	Nododd y pwyllgor y daflen waith.	
5.	**Adroddiad ar y Diweddaraf – Cynnydd yn erbyn Cynlluniau Gweithredu a Fabwysiadwyd**	
5.1	Cyflwynodd y Cadeirydd a'r Swyddog Craffu Corfforaethol yr adroddiad, rhoddon nhw rywfaint o gefndir yn gryno a chadarnhau'r gwaith craffu a awgrymwyd.	
5.2	Rhoddodd y swyddogion perthnasol adroddiadau ar y diweddaraf ac atebion i gwestiynau'r aelodau ynglŷn â'r pynciau isod.	
5.3	<u>Adroddiad Estyn – Gwella Ysgolion trwy Gonsortia Addysg Rhanbarthol</u> Cadarnhaodd y Prif Swyddog Addysg y byddai diweddariad i'r model cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau rhanbarthol i wella ysgolion ar gael cyn bo hir; serch hynny nid oedd yn disgwyl unrhyw newidiadau arwyddocaol mewn perthynas â'r rhanbarth.	
5.4	Cytunodd y Pwyllgor i gadw'r eitem yma ar gyfer diweddariadau pellach.	
5.5	<u>Adroddiad SAC – Sicrhau Gwelliannau yn y Cymorth i Ysgolion trwy Gonsortia Addysg Rhanbarthol – Darlun Cynnar</u> Awgrymodd y Prif Swyddog Addysg y byddai'r Pwyllgor am ystyried Cynllun Busnes y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) fel eitem i'w chraffu yn ystod y flwyddyn ganlynol. Esboniodd fod yr AALl a'u partneriaid, a oedd yn berchnogion comisiynu'r GCA, am weld camau sylweddol o ran sodro'r system hunan-wella yn y rhanbarth. Ychwanegodd fod y GCA mewn sefyllfa wirioneddol gryf i gyflawni hyn.	
5.6	Cytunodd y Pwyllgor i gadw'r eitem yma ar gyfer diweddariadau pellach.	
5.7	<u>Adolygiad Estyn Hydref 2011 ac Ymweliad Monitro Estyn 2013</u> Sicrhaodd y Prif Swyddog Addysg y Pwyllgor fod yr AALl bob amser yn ystyrlon o'u sefyllfa flaenorol ond roedden nhw bob amser yn edrych at y dyfodol.	
5.8	Cytunodd y Pwyllgor i dynnu'r eitem yma o adroddiadau monitro yn y dyfodol.	

		Cam
5.9	Awgrymodd y Cyng. Seabourne y byddai'n ddefnyddiol derbyn adborth ar Fwrdd Gwella Plant a Phobl Ifanc a fyddai'n cael ei ailsefydlu.	
5.10	Adolygiad SAC – Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (Adborth Lleol) Cadarnhaodd Prif Swyddog Addysg y byddai'r Bwrdd Gwella Plant a Phobl Ifanc yn cael ei ailsefydlu a bod papur wedi ei gyflwyno i Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ynglŷn â sut fyddai'r Bwrdd Gwella Plant a Phobl Ifanc yn ffitio i Gynllun Lles y BGC.	
5.11	Cadarnhaodd Prif Swyddog Addysg y byddai'r Grŵp Cynnydd Disgyblion hefyd yn cael ei ailsefydlu, grŵp a oedd gynt wedi cydlynu gwaith llwyddiannus o gwmpas Pobl Ifanc nad oeddynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant. Byddai diweddariadau pellach ar y darn arwyddocaol yma o waith yn dilyn yn y man.	
5.12	Cadarnhaodd y Pennaeth Sgiliau a Chyflogadwyedd fod niferoedd y rhai nad oeddynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi gostwng yn sylweddol a bod gweithdrefnau a phrosesau yn eu lle. Roedd mesur yr AALl, ym mlwyddyn 11, yn isel iawn ar 1.1% ac roedd yn debyg o aros o gwmpas y pwynt hwnnw.	
5.13	Cytunodd y Pwyllgor i gadw'r eitem yma ar gyfer diweddariadau pellach.	
6.	**Aelodaeth Is-bwyllgor Monitro Safonau Ysgolion**	
6.1	Amlinellodd y Swyddog Craffu Corfforaethol rôl yr Is-bwyllgor Monitro Safonau Ysgolion a'r aelodaeth arfaethedig yn yr adroddiad.	
6.2	Esboniodd y Swyddog Craffu Corfforaethol y byddai aelodaeth yr is-bwyllgor yn cael ei adolygu'n flynyddol	
6.3	**Cytunodd y pwyllgor:** **i. Aelodaeth yr Is-bwyllgor Monitro Safonau Ysgolion ar gyfer 2018-19, yn unol â'r adroddiad (ac yn unol â'r cyfrif cydbwysedd gwleidyddol perthnasol);** **ii. Y dylai'r is-bwyllgor barhau i ganolbwyntio yn benodol ar berfformiad ysgolion unigol a'r gefnogaeth y maen nhw'n ei derbyn.**	
7.	**Dyddiad y cyfarfod nesaf**	
7.1	Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai dyddiad y cyfarfod nesaf yn cael ei gylchredeg cyn gynted â phosibl.	
7.2	Gorffennodd y cyfarfod am 1.45pm.	